Christine Chapman AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Tachwedd 2015

Annwyl Christine

**Deiseb P-04-632 Mynyddoedd Pawb**

Mae'r Pwyllgor Deisebau wedi bod yn ystyried y ddeiseb ganlynol gan Mynyddoedd Pawb ers mis Mai eleni.

*Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ddarbwyllo cyrff a sefydliadau i ddiogelu a pharchu ein cyfoeth o enwau lleoedd er mwyn:*
*1) ysgogi parch a diddordeb yn yr iaith Gymraeg ac i sicrhau a chynyddu'r defnydd ohoni.*
*2) cynyddu'r ymdeimlad o hunaniaeth ymysg cymunedau lleol drwy rannu cyfoeth ein treftadaeth ddiwyllianol gydag eraill.*
*3) ennyn diddordeb ac ymwybyddiaeth ymwelwyr o gyfoeth ein treftadaeth leol a thrwy hynny ddod a buddion addysgol ac economaidd i ardaloedd.*
*Gellid cyflawni hyn trwy:*

- *weithio gyda chanolfannau awyr agored er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o enwau lleoedd traddodiadol brodorol, ac er mwyn eu cefnogi i ddefnyddio enwau lleoedd Cymraeg yn eu gwaith o ddydd i ddydd.*
- *tynnu sylw at gyfoeth ein henwau lleoedd o ran ein treftadaeth ddiwylliannol, a'r hyn y gallant ei gyfleu trwy addysgu am hanes, daearyddiaeth, chwedloniaeth a defnydd tir hanesyddol ein gwlad.*
- *darbwyllo Llywodraeth Cymru i ddod ag enwau lleoedd traddodiadol a hir sefydlog dan reolaeth gynllunio.*

*(Mae deiseb ysgrifenedig yn cyd-redeg.)*

***Gwybodaeth ychwanegol***
*Rydym o'r farn y dylid codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd diogelu enwau lleoedd Cymraeg, a bod gan sefydliadau a chymdeithasau gwirfoddol, yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, ran allweddol yn y gorchwyl.*
*Hefyd, dylai ysgolion sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfle i werthfawrogi cyfoeth enwau lleoedd Cymraeg fel rhan o'u treftadaeth genedlaethol.*
*Credwn y dylai enwau lleoedd ynghyd a'r dreftadaeth a'r hanes sy'n gysylltiedig â nhw, fod yn rhan annatod o gyrsiau astudiaethau'r amgylchedd mewn addysg bellach ac addysg uwch, ac o gyrsiau gweithgareddau awyr agored sy'n cael eu rhedeg gan gyrff eraill. Dylid sicrhau bod cyrff hyfforddi, canolfannau a chlybiau sy'n ymwneud â mynydda a gweithgareddau awyr agored yn cael eu hannog i ddefnyddio enwau lleoedd Cymraeg.*

*Gofynnwn i'r Cynulliad Cenedlaethol bwysleisio pwysigrwydd hyn oll i Lywodraeth Cymru, fel y gall ddarbwyllo awdurdodau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ynghyd â chyrff eraill yn y sectorau statudol, cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat i gymryd camau priodol i ddiogelu enwau lleoedd Cymraeg.*

Yn ystod ein cyfarfod ar 6 Hydref, cytunodd y Pwyllgor y dylwn drosglwyddo manylion y ddeiseb i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol fel y gallai eich Pwyllgor gadw mewn cof y materion y mae'n eu codi wrth ichi ystyried Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru).

Mae manylion y ddeiseb, gan gynnwys gohebiaeth a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt, ar gael yn:
http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=12672

Os bydd arnoch angen rhagor o wybodaeth, cysylltwch â thîm Clercio'r Pwyllgor Deisebau drwy anfon e-bost i *SeneddDeisebau@cynulliad.cymru*.

Yn gywir

William Powell AC
**Cadeirydd**